## CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR FEHEFIN 5ed, 2023

## Yn NEUADD BENTREF FFOSTRASOL am 7.30 y.h.

**Yn bresennol** Cyng. Ceri Jones (cadeirydd)
Cyng. Sharon Thomas
Cyng. Mark Davies
Cyng. Sian Williams
Cyng. Llyr Evans
Cyng. Maldwyn Lewis
Cyng. Emyr Jones
Cyng. Teifi Evans
Cyng. Carol Davies

**Clerc** Rhian Jones

Gwnaeth y Cadeirydd Ceri Jones longyfarch y Cyng. Maldwyn Lewis ar gael ei ethol yn Gadeirydd Cyngor Sir Ceredigion, a diolchodd y Cyng. Maldwyn Lewis i'r Cadeirydd am ei eiriau caredig.

| Eitem ar yr Agenda | Gweithredu | Gan bwy | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| 1 . Ymddiheuriadau | Cyng. Rob Jones a'r Cyng Roger Davies. | | |
| 2. Datgan Diddordeb. | DIM | | |
| 3. Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf | Roedd pob cynghorydd wedi derbyn copi o gofnodion cyfarfod mis Mai.<br>Cadarnhawyd fod cofnodion mis Mai yn gywir gan y Cyng. Emyr Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Sian Williams. | | |
| 4.Materion yn Codi | Potaiu Blodau – Diolchwyd i'r Cyng.Sian Williams gyda help ei mab Owain am osod y blodau yn y potiau o amgylch y pentrefi. Diolchwyd hefyd i'r Cyng. Maldwyn Lewis am ddarparu blodau ar gyfer potiau Penrhiwpal. Mae aelodau o bob pentref wedi cytuno i ofalu am y potiau a'u dyfrhau dros yr Haf, ond am rhai Bwlchygroes. Bydd rhaid i rai o'r Cynghorwyr fynd i ddyrfhau potiau Bwlchygroes.<br>Soniwyd y byddai angen strimio o amgylch y potiau hefyd mewn ambell leoliad.<br>Mae lleoliad un o botiau Coedybryn wedi newid o ger yr arhosfan bws i arwydd Coedybryn sydd ger Bryn Hywel.<br>Mae'r Cyng. Ceri Jones wedi gosod lleoliad pob un o'r potiau ar fap.<br><br>Nid oedd unrhyw ymateb wedi bod am De-fib Penrhiwpal.<br><br>Cafwyd noson dda yn y cinio Blynyddol yn La Calabria a diolchwyd i Rhian Jones am drefnu'r noson.<br><br>Ynghlyn a'r mandante – problem cael y ffurflenni o'r banc gan nad yw'r Clerc yn llofnodwr. Mae'r Cyng.Sharon Thomas yn mynd i geisio cysylltu gyda'r banc.<br><br>Angen i'r Clerc gael pris am atgyweirio to yr arhosfan bws yng | | |

Nghoedybryn.

5. Materion y Cynghorydd Sir

Mae Cyngor Cymuned Troedyraur yn ymfalchio yng Nghlwb Ffermwyr Ifanc Troedyraur ar eu llwyddiant diweddar yn y Rali. Maent yn dangos Sgiliau cefn gwlad ar eu gorau ac mae nifer o bobl ifanc wedi ymuno a'r Clwb yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'n mynd o nerth i nerth, ac angen i'r Clerc anfon llythyr i'w llongyfarch.

Yn ystod penwythnos Mehefin 10fed-11eg mae digwyddiad dathliadau Cranogwen yn Llangrannog. Maent yn dadorchuddio cerflun yn dilyn gorymdaith o Wersyll yr Urdd. Mae Jane Hutt o'r Senedd yn ymuno yn y dathliadau. Hefyd cynhelir noson o Gymanfa Ganu yng Nghapel Y Wig ac mae cysylltiad teuluol Y Cyng.Carol Davies ynghlwm a'r oedfa hon.

Braf gweld y blodau wedi eu gosod a gobeithio bydd y pentrefwyr yn ymfalchio yn y gwaith caled.

Cynhaliwyd Sioe Hen Beiriannau llewyrchus iawn ar Ddydd Llun, Gwyl y Banc – yr orau eto yn ol y son.

Y gobaith yw adeiladu ysgol newydd yn Nyffryn Aeron sy'n dros 14 miliwn o gontract. Mae disgwyl cadarnhad o'r Senedd am ddefnyddio'r arian i wella'r gymuned.

6. Gohebiaeth.

Arolwg Efeillio – y dyddiad cau ar gyfer llenwi'r arolwg yn agosau, sef Mehefin 16eg.

Mapiau Ffiniau – angen cael rhai i farcio lleoliadau gwahanol bethau yn y Cyngor Cymuned. Mae modd cael map wedi gwneud gyda amlinelliad o'r gymuned – syniad cael rhai i gadw llygaid ar bethau a osodwyd a'u lleoliadau.

Brechiad y ffliw o Boots - e-bost wedi cyrraedd ond amherthnasol i ni.

Mai 26ain – Awst 24ain y dyddiadau i ymateb am Ysbyty Llwynhelyg.
( arddangos ar ein tudalen facebook er mwyn annog fwy o ymateb).
Y Cyng.Sian Williams i drefnu hyn.

Cymunedau Ceredigion – mae yna wahoddiad i gampws Prifysgol Llambed ar nos Fercher, Mehefin 14eg i drafod hyn.

7. Cynllunio.

Derbyniwyd un cais cynllunio ym Mronallt, Rhydlewis i adeiladu estyniad wrth gefn y ty. Nid oes gennym wrthwynebiad ond rhaid iddo weddu i'r adeilad cofrestredig sydd yn ei ddalgylch.

8. Cyllid

Audit – angen edrych ar yr Awdit cyn y dyddiad cau. Y Cyng. Sian Williams

a Sharon Thomas yn barod i ymuno i edrych ar y ffigyrau. Nodwyd efallai

fod ffigyrau diwedd y flwyddyn a dechrau'r flwyddyn ganlynol ychydig yn wahanol oherwydd efallai fod ambell siec heb gael ei thalu i mewn.

Codwyd nad yw'r Clerc wedi cael ei thalu am ei Gwaith cyfieithu ers Mis Tachwedd 2022. Gweithiwyd allan mae cyfanswm oriau Gwaith y Clerc yw 5.7 awr yr wythnos, a'r Tal blynyddol am ei Gwaith fel Clerc a'r cyfieithu fydd £3574.58c
Angen anfoneb am y cyfieithu a rhoi £180.90c I lawr fel costau am llynedd oherwydd ein bod bellach mewn blwyddyn ariannol newydd.
( Codwyd y dylai'r Clerc fynychu cwrs Cod Ymddygiad).

Hanfu – Y Cyng.Maldwyn Lewis wedi gwir fwynhau'r profiad. Prynhawn hyfryd ac awyrgylch arbennig. Llogwyd Neuadd Rhydlewis gan ferch 11 mlwydd oed, ac roedd Arlwywyr, pobl trin gwallt, gwisgoedd a ffotograffydd proffesiynnol yno.Roedd naws y prynhawn yn Tsieiniaidd gyda gwahanol wisgoedd dros y blynyddoedd. Roedd hefyd yn fyw Ar-lein trwy Zoom. Eu bwriad yw mynd a'r arddangosfa i Abertawe a Manceinion nesaf, a gobeithio efallai allan i Tsieina. Roedd y trefnwyr yn ddiolchar iawn ein bod cytuno fel C.C i dalu am logi'r Neuadd iddynt.

Arwyddodd y Cyng Sharon Thomas a'r Cyng Mark Davies y sieciau.

| | | |
|---|---|---|
| **Taliadau** - | HMRC - £43.40 | 001707 |
| | Cyflog y Clerc - £173.80 | 001708 |
| | Llogi Neuadd Rhydlewis - £50.00 ( Hanfu Experience) | 001706 |

9.Materion Ardal.

* Cynhaliwyd Sioe hen bethau Llwyddiannus iawn ar ddiwedd mis Mai.

* Llongyfarch Clybiau Ffermwyr Ifanc Troedyraur a Phontsian ar eu llwyddiant yn y Rali yn ddiweddar. Braf oedd gweld cymaint o bobl ifanc yn mwynhau gwahanol gystadleuthau. Ennillodd dynion Troedyraur y gystadleuaeth tynnu'r gelyn a death Pontsian yn bedwerydd yn y rali.

* Eisteddford yr Urdd Ennillodd Ceredigion fel Sir y Cystadleuthau Celf a gwych oedd dod yn ail ar draws yr holl gystadleuthau.

* Llongyfarch Clwb Pel Droed Ffostrasol am eu llwyddiant anhygoel eleni yn ennill 6 chwpan dros y flwyddyn. Arbennig. Bydd y Clerc yn anfon llythyr i'w llongyfarch.

* Clwb Rygbi Castell Newydd Emlyn – Dyrchafwyd hwy fel tim cyntaf eleni ar ol llwyddiant dros y flwyddyn.

* Merched lleol sy'n rhan o Glwb Hoci Llandysul ac maent wedi cael dyrchafiad I'r Brif adran. Hwn yw eu trydydd dyrchafiad dros y tair mlynedd diwethaf. Dymuniadau gorau iddynt.

* Ysgol Bro Teifi – Llongyfarchiadau i griw Busnes Blwyddyn 10 ar eu llwyddiant yn sefydlu busnes 'Dan Draed' yn gwneud cynnyrch allan o hen bedolau. Yn dilyn eu llwyddiant yn y gystadleuaeth Rhanbarthol a Chymru aethant ymlaen I gystadleuaeth Ewrop, a dyma'r ysgol gyntaf yng Nghymru i ennill gwobr - sef y wobr greadigol.

* Mae cynghorwyr yn gyfrifol am wahanol focsys De-fib, i sicrhau fod popeth yn gweithio a chadw llygaid ar ddyddiadau. Nodwyd fod angen edrych arnynt yn fisol.

<u>Ffostrasol</u> – Mae twll wedi ymddangos ar y palmant yn y 'rodding point' ger Brynhyfryd, rhwng Ffostrasol a Bwlchygroes. ( CLIC)

Mae angen cysylltu hefyd am y cerrig man sydd ar y palmant ger tu allan i gartrefi ger Neuadd y Pentref.

<u>Brongest</u> – Mae twll wedi ymddangos ger y gyffordd ar bwys yr hen ysgol. Yn yr un safle mae'r clawdd eithin wedi tyfu allan ac mae'n annodd gweld i lawr am Brongest pan yn dod o gyfeiriad Betws Ifan.

Mae tipyn o sbwriel ar y ffordd am Curlew Weavers ger Cefnmaes Bach. Hefyd mae set car wedi ei gadael yn y clawdd.

<u>Penrhiwpal –</u> Holodd y Cyng.Maldwyn Lewis os oedd Clic wedi ymateb am y blwch halen ger chyffordd Penrhiwpal. Nododd y Clerc ei bod wedi cysylltu gyda Clic, ond heb gael ymateb wrthynt eto.

Mae twll ar y ffordd gyferbyn a Llainmanal SA44 5QH

<u>Rhydlewis</u> – Roedd yna ddiwrnod helpu allan ble mae pobl yn mynd o gwmpas y Pentref yn casglu'r sbwriel.

<u>Coedybryn</u> – Diolchwyd I'r pentrefwyr sydd wedi cyfrannu a rhoi eu amser i blannu Blodau ar Sgwar y Pentref.

10. Cyfarfod nesaf – Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Coedybryn am 7:30 ar y 4ydd o Orffennaf.

AGENDA

*Diweddariad am y mandate banc
* Diweddariad am yr Awdit
* Cystadleuaeth Aredig

Gan nad oedd dim ymhellach i drafod, tynnodd y Cadeirydd y cyfarfod i ben am 9 o'r gloch.